
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 684 (Cy. 82)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau
Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2013**

<i>Gwnaed</i> - - - -	21 Mawrth 2013
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad</i>	
<i>Cenedlaethol Cymru</i> - -	22 Mawrth 2013
<i>Yn dod i rym</i> - -	12 Ebrill 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129, 130, 131, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2013 a deuant i rym ar 12 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “Rheoliadau 1986” (“*the 1986 Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(2);

ystyr “Rheoliadau 1997” (“*the 1997 Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(3); ac

ystyr “Rheoliadau 2007” (“*the 2007 Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(4).

Diwygio Rheoliadau 1986

3. Mae Rheoliadau 1986 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau rheoliad 4.

(1) 2006 p.42.
(2) O.S. 1986/975 fel y'i diwygiwyd.
(3) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.
(4) O.S. 2007/1104 (Cy.116) fel y'i diwygiwyd.

4.—(1) Yn rheoliad 2, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniadau canlynol—

- “(a) “the 2012 Act” means the Welfare Reform Act 2012(5);” a
- “(b) “universal credit” means universal credit under Part 1 of the 2012 Act;”.

(2) Yn rheoliad 13(2)—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (o), hepgorer “or”;
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (p), yn lle “.” rhodder “; or”; ac
- (c) ar ôl is-baragraff (p), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—
 - “(q) during the period beginning on 29 April 2013 and ending on 31 March 2014—
 - (i) he is the recipient of an award of universal credit either as a single person or as a member of a couple,
 - (ii) he is a child or qualifying young person for whom a recipient referred to in paragraph (i) is responsible, or
 - (iii) he is a member of a couple, the other member of which is the recipient of an award of universal credit as a single person.”.

(3) Yn rheoliad 13(3)—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (c), hepgorer “and”;
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (d), yn lle “.” rhodder “; and”; ac
- (c) ar ôl is-baragraff (d), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—
 - “(e) in sub-paragraph (q) “couple” has the meaning given in section 39 of the 2012 Act (couples) and “qualifying young person” has the meaning given in section 10(5) of the 2012 Act (responsibility for children and young persons).”.

Diwygio Rheoliadau 1997

5. Mae Rheoliadau 1997 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau rheoliad 6.

6.—(1) Yn rheoliad 1, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniadau canlynol—

- “(a) “the 2012 Act” means the Welfare Reform Act 2012(6);” a
- “(b) “universal credit” means universal credit under Part 1 of the 2012 Act;”.

(2) Yn rheoliad 8(3)—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (o), hepgorer “or”;
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (p), yn lle “.” rhodder “; or”; ac
- (c) ar ôl is-baragraff (p), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—
 - “(q) during the period beginning on 29 April 2013 and ending on 31 March 2014—
 - (i) he is the recipient of an award of universal credit either as a single person or as a member of a couple,
 - (ii) he is a child or qualifying young person for whom a recipient referred to in paragraph (i) is responsible, or
 - (iii) he is a member of a couple, the other member of which is the recipient of an award of universal credit as a single person.”.

(5) 2012 p.5.

(6) 2012 p.5.

- (3) Yn rheoliad 8(4)—
- (a) ar ddiwedd is-baragraff (c), hepgorer “and”;
 - (b) ar ddiwedd is-baragraff (d), yn lle “.” rhodder “; and”; ac
 - (c) ar ôl is-baragraff (d), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—
 - “(e) in sub-paragraph (q) “couple” has the meaning given in section 39 of the 2012 Act (couples) and “qualifying young person” has the meaning given in section 10(5) of the 2012 Act (responsibility for children and young persons).”.

Diwygio Rheoliadau 2007

7. Mae Rheoliadau 2007 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau rheoliad 8.

8.—(1) Yn rheoliad 2, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniadau canlynol—

- (a) “ystyr “Deddf 2012” (“the 2012 Act”) yw Deddf Diwygio Lles 2012(7);”;
- (b) “mae i “person ifanc cymwys” yr ystyr a roddir i “qualifying young person” yn adran 10(5) o Ddeddf 2012 (cyfrifoldeb am blant a phobl ifanc);”;
- (c) “ystyr “credyd cynhwysol” yw credyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf 2012;”.

(2) Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o “pâr”, ar ôl “1992” mewnosoder “, ac eithrio bod iddo, yn rheoliad 5(1)(aa)(i) a (iii), yr ystyr a roddir i “couple” yn adran 39 o Ddeddf 2012 (parau)”.

(3) Yn rheoliad 5(1), ar ôl is-baragraff (a), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—

“(aa) during the period beginning on 29 April 2013 and ending on 31 March 2014—

- (i) is the recipient of an award of universal credit either as a single person or as a member of a couple,
- (ii) is a child or qualifying young person for whom a recipient referred to in paragraph (i) is responsible, or
- (iii) is a member of a couple, the other member of which is the recipient of an award of universal credit as a single person;”.

(4) Yn rheoliad 16(1), yn lle is-baragraff (b), rhodder—

“(b) the amount which represents the weekly amount of any housing benefit to which the claimant or any member of his or her family is entitled under the provisions of Part VII of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992(8).”

(5) Yn Atodlen 1, yng ngholofn 2 o Dabl B, ym mharagraff 13A fel y'i hamnewidiwyd—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (1)(b)(i), hepgorer “or”;
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (1)(b)(ii), yn lle “.” rhodder “;”; ac
- (c) ar ôl is-baragraff (1)(b)(ii), mewnosoder—

“(iii) in receipt of the enhanced rate of the daily living component of personal independence payment prescribed in accordance with section 78(3)(b) of the 2012 Act; or

(iv) in receipt of an armed forces independence payment under the Armed Forces and Reserve Forces (Compensation Scheme) Order 2011(9).”

(7) 2012 p.5.

(8) 1992 p.4.

(9) O.S. 2011/517 fel y'i diwygiwyd.

Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

21 Mawrth 2013

Mark Drakeford
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 (1986/975) ("Rheoliadau 1986"), Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (1997/818) ("Rheoliadau 1997") a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (2007/1104 (Cy.116)) ("Rheoliadau 2007").

Mae rheoliadau 3 a 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 1986 o ganlyniad i gyflwyno'r credyd cynhwysol gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 (2012 p.5) ("Deddf 2012").

Mae rheoliadau 5 a 6 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 1997 o ganlyniad i gyflwyno'r credyd cynhwysol gan Ddeddf 2012.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2007 o ganlyniad i gyflwyno'r credyd cynhwysol gan Ddeddf 2012, diddymu'r budd-dal treth gyngor, cyflwyno'r taliad annibyniaeth bersonol gan Ddeddf 2012 a chyflwyno taliad annibyniaeth y lluoedd arfog gan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011 (2011/517).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.